# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd y Waun**

**Y G G Y Waun**
**Heol Newydd**
**Gwaun Cae Gurwen**
**Rhydaman**
**SA18 1UN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:* *psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Meithrinfa Ddydd y Waun

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Alison Griffiths |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo, yn hapus, ac maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn ac yn meithrin cydberthnasau cryf â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu a datblygu o'r profiadau a gynigir iddynt ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae.

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson ac yn dangos ymddygiad da. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r plant yn ogystal â chyfleoedd da i blant ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae mesurau effeithiol ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae gan y lleoliad ystod eang o gyfarpar o ansawdd da sy'n briodol o ran oedran sy'n diwallu anghenion y plant ac yn rhoi amrywiaeth a dewis iddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm. Maent yn sicrhau bod eu polisïau a'u gweithdrefnau yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn adlewyrchu arferion y lleoliad yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meithrin partneriaethau gwaith da â'r rhieni.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant lawer o ddewisiadau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau am y ffordd maent yn treulio eu hamser. Maent yn dewis pa adnoddau y maent am chwarae â nhw ac yn penderfynu pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae'r plant yn hyderus iawn wrth gyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau, am eu bod yn gwybod y bydd yn staff yn gwrando arnynt ac yn dangos diddordeb. Mae'r holl blant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd ac yn mwynhau ystod dda o deganau ac adnoddau sy'n briodol i'w hoedran.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Er enghraifft, cyrhaeddodd y plant hŷn i gael cinio, yn llawn brwdfrydedd ac yn awyddus i gyfarch y staff a rhannu eu newyddion. Mae'r plant yn adnabod y staff yn dda iawn ac wedi meithrin cydberthnasau cadarn a chariadus â nhw. Mae'r cydberthnasau cryf hyn yn helpu'r plant i wneud dewisiadau mewn ffordd hyderus ac i gymryd rhan gadarnhaol yn eu chwarae.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn amlwg yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant eraill. Maent yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd. Mae'r plant yn dod yn hunanymwybodol ac yn dysgu i fod yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, rhannodd un plentyn ei gar â'i ffrind ac yna aeth i gasglu un arall ar ei gyfer ei hun. Cânt eu hannog i greu cysylltiadau iach, boddhaus ac ystyrlon drwy wneud ffrindiau a bod yn garedig.

Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, gwnaeth grŵp o blant chwarae gyda'r beiciau tair olwyn a'r tractors am dipyn o amser, gan deithio o amgylch y conau a stopio wrth y gylchfan. Mae'r plant yn mwynhau'n fawr ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Maent yn dangos lluniau o gywion yn deori yn eu hardal natur eu hunain yn llawn brwdfrydedd. Gwnaethant siarad yn llawn cyffro am y nyth a adeiladwyd a'r ffordd yr oeddent wedi bod yn cadw golwg ar y nyth yn amyneddgar bob dydd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Cynigir amrywiaeth o brofiadau sy'n addas ar gyfer eu hoedran iddynt, er mwyn ymarfer eu sgiliau hunangymorth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd ac amser bwyd, mae'r plant yn gweini llaeth a dŵr iddynt eu hunain. Cânt eu hannog i yfed o lestri go iawn, gan hybu ymdeimlad o gyfrifoldeb a gofal am yr hyn y maent yn ei wneud. Eisteddodd dau blentyn i gael sgwrs, gan sipian ar eu cwpanau te yn ofalus, tra gwnaeth dau arall chwarae offerynnau gyda'i gilydd ar y carped. Mae'r plant yn dewis gweithgareddau'n hyderus, sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau meddwl yn annibynnol a gwneud penderfyniadau eu hunain. Er enghraifft, gwnaeth dau blentyn benderfynu eu bod am chwarae offerynnau gan am oeddent eisiau bwyd. Cafodd eu dymuniadau eu parchu a chawsant eu hatgoffa bod croeso iddynt ymuno pan oeddent yn barod.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu ac maent yn hyderus pan ofynnir iddynt am senarios damcaniaethol. Mae'r staff yn dilyn arferion hylendid da mewn perthynas â newid cewynnau a hylendid bwyd. Mae digon o staff gyda chymhwyster cymorth cyntaf pediatrig ar gael. Mae systemau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei rhoi.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd cadarnhaol, caredig a gofalgar. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant ganolbwyntio ar eu teimladau eu hunain. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r ardal dawel pan fo angen er mwyn treulio amser gyda'r plant i feithrin cydberthnasau agos ac i gefnogi'r unigolion i reoli eu hunain ac i fyfyrio ar eu hymddygiad. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â'r plant ac yn cynnig anogaeth a chanmoliaeth drwy gydol y dydd. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn ystyrlon ac maent yn dangos cynhesrwydd gwirioneddol tuag at ei gilydd. Mae'r staff yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl ragorol. Maent yn rhoi cyfle i'r plant ddatrys gwrthdaro rhyngddynt eu hunain, dan oruchwyliaeth agos. Mae'r staff yn annog y plant i ddefnyddio eu llais ac i fynegi eu dymuniadau ac i ddatrys problemau rhyngddynt eu hunain. Er enghraifft, roedd dau blentyn am ddefnyddio'r un bwced wrth chwarae gyda'r tywod. Gwnaethant drafod y peth a chytuno y byddent yn aros eu tro ac yn ei roi i'r llall rhwng bob twr y byddent yn ei adeiladu. Mae'r staff yn arsylwi'r sgyrsiau hyn ac yn eu canmol am fod yn gyfrifol ac yn garedig.

Mae'r staff yn llwyddo i ddiwallu anghenion y plant; maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda drwy ddulliau rhyngweithio cadarnhaol a thrwy'r gweithgareddau y maent yn eu darparu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn rhoi cyfleoedd dysgu sy'n ystyried diddordebau unigol. Mae'r staff yn cofnodi cynnydd y plant ac yn gweithio ar nodi eu camau dysgu nesaf. Maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd eu plant ar lafar ac mewn cyfarfodydd unigol.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r lleoliad ar dir ysgol, lle mae'r brif fynedfa wedi'i chloi'n ddiogel a gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd Meithrinfa Ddydd y Waun. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, sy'n cael eu cofnodi a'u dadansoddi. Maent wedi cwblhau asesiad risg tân a chaiff yr holl asesiadau risg cyffredinol eu hadolygu'n rheolaidd. Nid oedd pob tystysgrif ddiogelwch ar gael yn ystod yr ymweliad, ond cafodd pob un ei darparu yn ystod yr ymweliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardal dan do ac yn yr awyr agored i'r plant, sy'n addas ar gyfer pob oedran a phob cam datblygu'r plant sy'n bresennol. Mae'r ardal dan do yn cynnig ardaloedd chwarae er mwyn i'r plant ddatblygu eu creadigrwydd, dychymyg, annibyniaeth, a sgiliau iaith, gan gynnwys ardaloedd i eistedd ac ymlacio pan fo angen. Mae byrddau a chadeiriau addas i'r plant eistedd, cymdeithasu a mwynhau gweithgareddau pen bwrdd. Mae'r toiledau a'r ardaloedd newid wedi'u lleoli y tu allan i'r ystafell ond mae'r staff yn sicrhau y caiff y cymarebau staffio eu bodloni bob amser a bod arferion dyddiol yn cael asesiadau risg parhaus. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn amgylchedd mawr a hwylus sydd ar gael iddynt drwy'r dydd. Mae'r amgylchedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae'r plant wedi creu ardal natur yn yr awyr agored, lle maent yn arsylwi'r adar yn nythu a'r cywion yn deori. Mae'r ardal natur hon a ysbrydolwyd gan y plant yn creu cyfleoedd dysgu diddiwedd iddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r teganau a'r adnoddau wedi'u labelu ac maent ar gael i'r plant. Dan do, gall y plant gael gafael ar amrywiaeth o jig-sos, llyfrau, ceir, doliau, adnoddau chwarae rôl, dillad gwisgo i fyny, rhannau rhydd, yn ogystal ag ardal byd bach â deinosoriaid er mwyn i'r plant fod yn greadigol ac yn ddychmygol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardal awyr agored enfawr â beiciau gyrru, beiciau tair olwyn, ceginau mwd, chwarae tywod a dŵr, ardaloedd chwarae rôl, offer cloddio ac adeiladu, ac ardal natur. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd dyddiol allan yn yr awyr agored, a'u bod wedi gwisgo'n addas ar gyfer pob tywydd ar yr un pryd.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhannu Datganiad o Ddiben cyfredol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod yr arolygiad sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Maent yn sicrhau bod ganddynt gontractau a chaniatadau ar waith a bod yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn ymarferol yn bennaf. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r rhain er mwyn iddynt adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn llawn. Er enghraifft, nid yw'r polisi rheoli ymddygiad presennol yn adlewyrchu'r strategaethau effeithiol sy'n cael eu rhoi ar waith yn y lleoliad. Mae angen gwybodaeth ychwanegol ar bolisïau penodol  i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o brotocolau'r lleoliad yn unol â'r strwythur staffio unigryw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu’r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae'r broses rheoli perfformiad ar waith, gan gynnwys arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw sesiynau goruchwylio'r staff yn canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ac felly caiff cyfleoedd hyfforddiant perthnasol eu colli weithiau. Er enghraifft, byddai'r staff yn cael budd o gwblhau hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth am asesu datblygiad plant, dysgu ffyrdd i lywio eu cynllunio, ac i gefnogi cyfnod pontio'r plant i'r ysgol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu systemau da er mwyn gwerthuso'r gwasanaeth ac maent yn ymrwymedig i wella canlyniadau ar gyfer y plant a'u teuluoedd. Maent yn hunanwerthuso ac yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant i lywio'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac asiantaethau allanol yn gadarnhaol. Caiff gwybodaeth ar lafar ei throsglwyddo i'r rhieni pan fyddant yn casglu eu plant am eu hamser yn y lleoliad. Caiff lluniau o weithgareddau dyddiol a diweddariadau a gwybodaeth eraill eu rhannu'n wythnosol hefyd. Gwnaethom siarad â'r rhieni ar ddiwrnod yr ymweliad a oedd yn hapus iawn â'r lleoliad ac yn dweud bod eu plant yn hapus iawn hefyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod tystysgrifau diogelwch ar gael yn hawdd i'w harolygu. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Cwblhau'r hyfforddiant perthnasol er mwyn cynllunio ac asesu yn unol â'r arferion cyfredol. |
| Safon 14 - Trefniadaeth | Sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn benodol i'r lleoliad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/07/2024